



Dyma hi!

Dyma Elen Rees. Mae hi'n un deg pedwar oed ac mae hi'n dathlu ei phen-blwydd ar y deuddegfed o Hydref.

Mae Elen yn byw yng Nghaerdydd gyda ei theulu. Mae hi'n byw mewn tŷ pêr. Mae hi'n byw gyda ei mam, ei

llysdad a dau frawd bach. Mae ei brodyr yn efeilliaid. Mae Gethin a Guto yn wyth oed. Maen nhw'n dathlu pen-blwydd ar ddydd San Steffan. Mae Mam-gu Elen yn byw yn y tŷ drws nesaf. Mae Elen yn hoffi ei Mam-gu. Mae hi'n mynd i'r Ysgol Uwchradd. Mae llawer o ffrindiau gyda hi ond ei ffrind gorau ydy Carys. Mae hi'n hoffi gwersi Cymraeg, Saesneg a Ffrangeg achos mae hi'n hoffi ieithoedd. Dydy hi ddim yn hoffi Celf na Gwyddoniaeth achos maen nhw'n anodd. Yn ei amser hamdden, mae hi'n hoffi pob math o chwaraeon. Mae hi'n hoffi chwarae hoci i dîm yr ysgol. Mae hi'n hoffi nofio yn y Ganolfan Hamdden bob nos Fercher. Bob nos Wener, mae hi'n chwarae pêl-rwyd gyda ei ffrindiau. Mae hi'n hoffi gwylio tîm rygbi yn chwarae rygbi. Hefyd, mae hi'n hoffi gwylio *"I'm a Celebrity"* ar y teledu. Mae hi'n caru Ant a Dec. Ei hoff fwyd ydy cyri gyda reis a sglodion. Ei chas fwyd ydy cinio rhost achos dydy hi ddim yn hoffi bwyta llysiau. Ei hoff ddiod ydy sudd afal a mango. Dydy hi ddim yn hoffi yfed te na choffi – ych a fi! Ei hoff ddillad ydy dillad chwaraeon. Dydy hi ddim yn hoffi gwisgo gwisg ysgol. Ei hoff ffilm ydy *"Home Alone 2"* achos mae'n ddoniol iawn. Mae hi'n hoffi'r Nadolig, hefyd! Mae gwallt hir, syth, brown gyda hi. Mae llygaid brown tywyll gyda hi hefyd. Mae hi'n dal ac yn denau.